# Lleihau, Cynhyrchu, Gwrthbwyso a Phrynu
# Cynllun Gweithredu

| CYF | PROSIECT | CAM GWEITHREDU | CYFLAWNIR GAN | AMSERLENNI |
|---|---|---|---|---|
| | Pennu gwaelodlin garbon yr awdurdod. | Nodi gwerthoedd allyriadau trwy gasglu data ar gyfer allyriadau Cwmpas 1, 2 a 3 fel y rhagnodir gan Lywodraeth Cymru. | Cyfrifoldeb Corfforaethol | Byr/ Canolig |
| | | Nodi prif gyfranwyr carbon i'r gwaelodlin, pob cyfarwyddiaeth i ymgymryd â chyfrifoldeb | Cyfrifoldeb Corfforaethol | Byr |
| | Cyfathrebu/ymwybyddiaeth/ ymgysylltu â staff | Pob cyfarwyddiaeth i ymgymryd â chyfrifoldeb dros ymgorffori datgarboneiddio yn y ffordd y maent yn gweithredu, trwy ymgysylltu/ymwybyddiaeth staff i ddechrau. | Cyfrifoldeb Corfforaethol | Byr |
| | Addysgu staff a phreswylwyr am eu cyfrifoldeb i leihau eu hôl troed carbon. | Hyrwyddo dealltwriaeth o fanteision arbed ynni, gan gynnwys arbed costau ac iechyd a chysur gwell, e.e. diweddaru mesuryddion deallus yn y cartref. | Cyfrifoldeb Corfforaethol | Byr |
| | Datgarboneiddio i fod wrth wraidd holl Ddogfennau Polisi Strategol y Cyngor. | Datgarboneiddio i gael ei gynnwys fel elfen sylfaenol o'r holl ddogfennau polisi strategol a gaiff eu paratoi gan y Cyngor. | Cyfrifoldeb Corfforaethol | Byr/Canolig |
| | Lleihau'r defnydd o blastig fel Cyngor. | Ymgyrch hyrwyddo i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i leihau'r defnydd a wneir o blastig. | Cyfrifoldeb Corfforaethol | Byr |
| | Meithrin perthnasoedd gyda sefydliadau academaidd a busnesau arloesol yn y maes hwn. | Datblygu enw da’r rhanbarth ym maes ymchwil ac arloesi trwy ymgysylltu gyda sefydliadau Addysg Uwch a chwmnïau o'r radd flaenaf gan gynnwys datblygu datrysiadau digidol a deallus ar gyfer pontio ynni, yn ogystal â cheisio datrysiadau er mwyn diogelu datblygiadau parhaus at y dyfodol. | Cyfrifoldeb Corfforaethol | Byr/Canolig |
| | | Hyrwyddo ymchwil ynghylch technolegau batris a hydrogen. | Cyfrifoldeb Corfforaethol | Byr/Canolig |
| | Datblygu gweithlu medrus yn y sector hwn. | Datblygu rhaglenni hyfforddiant gyda'n partneriaid addysgol i ddarparu set o sgiliau i sicrhau cyflogaeth yn y sector gwaith sy'n gallu cael dylanwad cadarnhaol ar yr agenda datgarboneiddio. | Cyfrifoldeb Corfforaethol | Byr/Canolig |
| | Annog cyfleoedd cyflogaeth yn y sector hwn. | Annog cyflogaeth leol ar gyfer prosiectau newydd gan y Cyngor a'r sector preifat. | Cyfrifoldeb Corfforaethol | Byr/Canolig |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Cynorthwyo 'pontio cyfiawn' i weithwyr trwy gynorthwyo'r rhai mewn diwydiannau carbon uchel 'traddodiadol' i ailhyfforddi | Cyfrifoldeb Corfforaethol | Byr/Canolig |
| | Hyfforddiant dylunio Carbon Isel | Buddsoddi mewn hyfforddiant ac enillion gwybodaeth ar gyfer ein staff, o beirianwyr i benseiri a chaffael i ddefnydd deunydd naturiol a charbon isel wrth ddylunio ac adeiladu adeiladau newydd ac wrth adnewyddu adeiladau presennol. | Cyfrifoldeb Corfforaethol | Byr/Canolig |

## LLEIHAU

| CYF | PROSIECT | CAM GWEITHREDU | CYFLAWNIR GAN | AMSERLENNI |
|---|---|---|---|---|
| | **ADEILADAU ANNOMESTIG PRESENNOL** | | | |
| R1 | Ystyried dylunio adeiladau presennol i safonau carbon niwtral net a charbon niwtral ar gyfer gweithgareddau gweithredol. | Gweithredu'r holl gyfleoedd sydd ar gael er mwyn lleihau carbon o fewn portffolio y stoc adeiladau presennol. Gwasanaethau Eiddo i arwain ond pob Cyfarwyddiaeth i archwilio ei chofrestr asedau eiddo ei hunan er mwyn nodi cyfleoedd. | Gwasanaethau Eiddo | Byr/Canolig/Hir |
| R2 | Trawsnewid yr holl oleuadau i rai ffurf LED. | Ehangu rhaglen bresennol y gwaith i uwchraddio goleuadau er mwyn cynnwys yr holl eiddo y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CBSC) yn berchen arnynt. | Gwasanaethau Eiddo | Byr/Canolig |
| R3 | Ystyried gwella lefelau inswleiddio adeilad yr adeiladau presennol. | Nodi adeiladau y byddai modd cynyddu eu lefelau inswleiddio. | Gwasanaethau Eiddo | Byr/Canolig/Hir |
| R4 | Ystyried gwella gweithgarwch arbed ynni trwy gyfrwng technolegau eraill e.e. pympiau gwres, unedau gwres a phŵer cyfunedig ar adeiladau presennol. | Nodi cyfleoedd ar gyfer technoleg sy'n gallu arbed mwy o ynni. | Gwasanaethau Eiddo | Byr/Canolig/Hir |
| R5 | Ystyried ffurfiau gwresogi amgen i foeleri nwy mewn cyfleoedd adeiladu newydd, gwaith adnewyddu mawr a phan fo boeleri presennol yn methu. | Adolygu cyfle i ddisodli boeleri nwy pan fo hynny'n briodol, er mwyn symud i ffwrdd o'r cyflenwad nwy. | Dull corfforaethol/ Gwasanaethau Eiddo | Byr/Canolig/Hir |
| R6 | Darparu hyfforddiant arbed ynni i staff adeiladu allweddol. | Darparu hyfforddiant am systemau rheoli ynni Adeiladau a thechnegau gofal tŷ da. | Gwasanaethau Eiddo | Byr |
| R7 | Datblygu cynllun arbed dŵr. | Ystyried y cyfleoedd i ddefnyddio llai o ddŵr trwy leihau llif, galw a dylunio. | Gwasanaethau Eiddo | Byr/Canolig/Hir |
| R8 | Parhau i resymoli ein portffolio eiddo annomestig. | Ar ôl COVID-19, archwilio cyfleoedd i leihau ein gofynion o ran swyddfeydd, a fydd yn lleihau allyriadau carbon gan nwy a thrydan a gweithgareddau eraill. | Gwasanaethau Eiddo | Byr/Canolig |
| | **STOC TAI BRESENNOL** | | | |
| R9 | Gwneud gwelliannau i'r ffabrig er mwyn defnyddio llai o ynni ac arbed costau, gan ystyried dull ôl-osod tŷ cyfan pan fo modd mewn stoc tai Cyngor y mae CBSC yn berchen arnynt. | Gwella effeithlonrwydd ynni eiddo domestig y mae'r Cyngor yn berchen arnynt trwy gwblhau'r rhaglen disodli boeleri er mwyn cyflwyno boeleri cyddwyso sy'n arbed ynni yn ein holl stoc. | Tai | Byr/Canolig |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| R10 | | Gwella effeithlonrwydd ynni eiddo domestig y mae'r Cyngor yn berchen arnynt trwy gwblhau'r rhaglen inswleiddio waliau allanol ar eiddo nad yw eu hadeiladwaith yn draddodiadol. | Tai | Byr |
| R11 | | Gwella effeithlonrwydd ynni eiddo domestig y mae'r Cyngor yn berchen arnynt trwy weithrediad parhaus y rhaglen inswleiddio waliau allanol/mewnol ar anheddau o adeiladwaith traddodiadol. | Tai | Byr/Canolig |
| R12 | | Gwella effeithlonrwydd ynni eiddo domestig y mae'r Cyngor yn berchen arnynt trwy'r rhaglen disodli ffenestri UPVc a fydd yn cyflwyno ffenestri sy'n arbed ynni o ansawdd uchel. | Tai | Byr/Canolig |
| R13 | | Arolygu'r holl gartrefi y mae CBSC yn berchen arnynt er mwyn darganfod eu sgôr ynni ac er mwyn nodi'r stoc sy'n lleiaf effeithlon o ran eu defnydd o ynni. Nodi Cyllideb Ynni a fydd yn gweithredu fel arian cyfatebol a chefnogaeth i gynlluniau effeithlonrwydd ynni cenedlaethol a rhaglenni i dargedu'r eiddo hyn. | Tai | Byr |
| R14 | Cyflwyno prosiectau peilot er mwyn ymchwilio i systemau gwresogi hybrid ar stoc bresennol. | Cwblhau peilot ffynhonnell nwy ac aer hybrid ar 20 fflat yng Nghaeau Martin, Trecelyn. | Tai | Byr |
| | **DATBLYGIAD NEWYDD – TAI** | | | |
| R15 | Hyrwyddo ac annog dulliau adeiladu sy'n ystyriol o garbon a gostyngiad o ran yr ynni a ddefnyddir yn yr holl ddatblygiadau tai newydd. | Darparu fframwaith polisi o fewn yr 2il Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) Newydd sy'n tybio o blaid adeiladu o'r fath pan fo hyn wedi'i leoli mewn man priodol. | Cynllunio ac Adfywio | Canolig |
| R16 | Lleihau cyfanswm yr ynni a ddefnyddir mewn eiddo newydd "Cartrefi Caerffili". | Cyflwyno manylebau ar gyfer adeiladau newydd sy'n ceisio lleihau cyfanswm y gwres a gollir gymaint ag y bo modd, cyflwyno systemau gwresogi mewnol effeithlon a lleihau lefelau carbon yn gyffredinol. | Cartrefi Caerffili | Byr/Canolig/ Hir |
| R17 | | Ymchwilio i ddefnyddio technoleg batris newydd er mwyn storio ynni mewn eiddo domestig. | Cartrefi Caerffili | Byr/Canolig |
| R18 | Cyflwyno dulliau adeiladu sy'n ystyriol o garbon yn rhaglen adeiladu newydd "Cartrefi Caerffili". | Sicrhau trefniant partneriaeth gyda chwmni lleol adeiladu fframiau dur modiwlar oddi ar y safle i adeiladu cartrefi newydd ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. | Cartrefi Caerffili | Byr/Canolig |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| R19 | | Ymchwilio a datblygu dulliau adeiladu modiwlar eraill oddi ar y safle (e.e. fframiau Pren) i'w defnyddio yn rhaglen adeiladu newydd Cartrefi Caerffili. Cysylltu cartrefi pren yn ôl i gyflenwyr Cymreig gan ddarparu cyflogaeth, byrhau cadwyni cyflenwi a lleihau carbon ar hyd y prosiect Cartrefi o Bren Lleol. | Cartrefi Caerffili | Byr/Canolig |
| R20 | | Mabwysiadu dull ffabrig yn gyntaf tuag at ddatblygiadau newydd Cartrefi Caerffili er mwyn sicrhau sgôr Band B EPC ar yr holl eiddo newydd a adeiladir. Canolbwyntio ar ffenestri ac inswleiddio sy'n arbed ynni er mwyn sicrhau bod eiddo yn aerglos. | Cartrefi Caerffili | Byr/Canolig |
| R21 | | Symud i ffwrdd o systemau gwresogi traddodiadol sy'n defnyddio tanwydd ffosil mewn cartrefi newydd Cartrefi Caerffili. | Cartrefi Caerffili | Byr/Canolig |
| R22 | | Cyflwyno deunyddiau ecogyfeillgar yn unol â manyleb eiddo newydd. | Cartrefi Caerffili | Byr/Canolig |
| R23 | Sicrhau bod rhaglenni a arweinir gan y Cyngor yn cynhyrchu tai sy'n defnyddio ynni mewn ffordd effeithlon (sgôr EPC A/B). | Cyflwyno amodau penodol i Raglen hunan-adeiladu y Siop Plotiau er mwyn sicrhau y darparir tai newydd sy'n arbed ynni ar y safleoedd tir a nodwyd, y mae'r Cyngor yn berchen arnynt. | Cynllunio ac Adfywio/Tai | Byr/Canolig |
| R24 | Gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'u cynorthwyo i ddarparu tai ecogyfeillgar yn y Fwrdeistref Sirol. | Ymrwymo i Femorandwm Dealltwriaeth gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn y parth i gydweithio a rhannu gwybodaeth ac adnoddau er mwyn gweithio tuag at ddarparu rhaglen o dai sy'n arbed ynni. | Tai | Byr/Canolig |
| R25 | | Cynorthwyo Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i sicrhau'r Grant Tai Cymdeithasol a'r Grant Tai Arloesol angenrheidiol er mwyn symud cynlluniau ecogyfeillgar yn eu blaen. | Tai | Byr/Canolig |
| R26 | | Defnyddio gwerth cyfalaf tir y mae CBSC yn berchen arno er mwyn gwrthbwyso costau gormodol datblygu cynlluniau carbon isel/sero carbon net/ecogyfeillgar. | Tai/Gwasanaethau Eiddo | Byr/Canolig |
| R27 | Cydweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn y parth i Gyflwyno technegau adeiladu oddi ar y | Sicrhau piblinell gadarn o waith datblygu er mwyn sicrhau bod ffatri fodiwlar leol yn fasnachol hyfyw. | Tai | Canolig |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | safle mwy modiwlar er mwyn lleihau cyfanswm y carbon a ddefnyddir yn ystod y broses adeiladu. | | | |
| R28 | Datblygu Cartrefi Deallus. | Cyflwyno'r seilwaith deallus angenrheidiol mewn anheddau er mwyn eu diogelu at y dyfodol, fel y gallant fanteisio i'r eithaf ar dechnolegau SMART sy'n dod i'r amlwg. | Tai | Byr/Canolig |
| | **DATBLYGIAD NEWYDD – ANNOMESTIG** | | | |
| R29 | Diweddaru Rheoliadau Adeiladu Rhan L. | Lobïo i adolygu deddfwriaeth Rheoli Adeiladu canolog fel ei bod yn cyflwyno trefniadau rheoli llymach ar gyfer adeiladau newydd a thrawsnewidiadau er mwyn sicrhau mesurau gwell i arbed ynni mewn adeiladau preswyl a masnachol. | Cynllunio ac Adfywio | Byr/Canolig |
| R30 | Hyrwyddo ac annog dulliau adeiladu sy'n ystyriol o garbon a gostyngiad yn yr ynni a ddefnyddir ym mhob datblygiad newydd. | Darparu fframwaith polisi o fewn yr 2il CDLl Newydd sy'n tybio o blaid gweithgarwch adeiladu o'r fath pan gânt eu lleoli mewn mannau priodol. | Cynllunio ac Adfywio | Canolig |
| | **TEITHIO A THRAFNIDIAETH** | | | |
| R31 | Gostwng nifer y cerbydau a chyfanswm y milltiroedd y bydd ein fflyd yn gyrru | Cynnal adolygiad o gerbydau fflyd ar draws yr awdurdod cyfan.  Gosod targedau ac amserlenni ar gyfer gostyngiadau | Tîm Polisi / Rheolwyr Fflyd | Byr/Canolig |
| R32 | Lleihau milltiroedd gwaith y 'fflyd lwyd' a gyflawnir gan staff. | Adolygu hawliadau milltiroedd y Fflyd Lwyd.  Datblygu a gweithredu hierarchaeth teithio, polisïau a chamau gweithredu cadarn er mwyn lleihau allyriadau. | Tîm Trawsnewid Cyfrifoldeb Corfforaethol | Byr |
| R33 | Lleihau'r defnydd a wneir o gerbydau petrol a diesel trwy weithredu'r Strategaeth Cerbydau Trydan. | Gweithredu'r strategaeth Cerbydau Trydan, gan gynnwys cyflwyno cerbydau trydan a seilwaith gwefru ar draws yr awdurdod | Polisi | Byr/Canolig |
| R34 | Lleihau teithio i'r gwaith (milltiroedd cymudo) | Adolygu patrymau cymudo, paratoi argymhellion gan gynnwys cyflwyno gweithio hyblyg, gan fanteisio ar batrymau ymddygiadol sy'n newid o ganlyniad i argyfwng COVID-19 | Polisi | Canolig |
| R35 | Hyrwyddo newid mewn dulliau teithio i ddulliau teithio mwy cynaliadwy. | Bydd 2il CDLl Newydd a Chynllun Trafnidiaeth Leol yn nodi polisïau er mwyn sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy deniadol a hygyrch. | Trafnidiaeth/ Cynllunio ac Adfywio | Canolig |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| R36 | | Cyflwyno rhwydwaith o lwybrau teithio llesol ar draws y Fwrdeistref Sirol, a fydd yn annog staff CBSC a phreswylwyr i gerdded a beicio mwy. | Trafnidiaeth | Byr/Canolig |
| R37 | | Gwella cyfleusterau croesi a gwella llwybrau cerdded a beicio | Trafnidiaeth | Byr/Canolig |
| R38 | | Treialu gweithrediad parthau beicio ac i gerddwyr mewn ysgolion | Trafnidiaeth | Byr |
| R39 | | Parhau gyda'r rhaglen addysgol mewn ysgolion, sef diogelwch ar y ffordd ac ar feic, er mwyn annog cerdded a beicio. | Trafnidiaeth | Byr |
| R40 | | Hyrwyddo bysiau cerdded i'r ysgol. | Trafnidiaeth/ Addysg | Byr |
| R41 | | Cyflwyno lleoedd parcio a theithio ychwanegol mewn lleoliadau allweddol ar lwybrau rheilffyrdd er mwyn annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. | Trafnidiaeth | Canolig/Hir |
| R42 | | Lobïo Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru am nodau Metro y Cymoedd ychwanegol i wella cysylltedd a hygyrchedd. | Trafnidiaeth/ Cynllunio ac Adfywio | Canolig |
| R43 | Cyflwyno cerbydau trafnidiaeth gyhoeddus trydanol i rwydwaith trafnidiaeth yr awdurdod lleol. | Gweithio gyda Stagecoach i gyflwyno fflyd o fysiau gwasanaeth trydan i Gaerffili. | Trafnidiaeth | Byr |
| R44 | Datblygu cyfnewidfa drafnidiaeth newydd sy'n ystyriol o gerbydau trydan yng nghanol tref Caerffili. | Gweithio gyda thrafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru i wireddu'r amcan hwn yng nghynllun creu lleoedd Caerffili. | Dull Corfforaethol | Canolig/Hir |
| | **SEILWAITH** | | | |
| R45 | Sicrhau bod goleuadau stryd yn rhai sy'n defnyddio ynni mewn ffordd fwy effeithlon. | Cwblhau rhaglen i ddisodli goleuadau stryd gyda llusernau LED erbyn mis Rhagfyr 2020. | Peirianneg | Byr |
| R46 | | Parhau gyda'r rhaglen goleuadau goleuo rhannol yn y Fwrdeistref Sirol. | Peirianneg | Byr/Canolig |
| R47 | Manteisio i'r eithaf ar ddeunyddiau wedi'u hailgylchu ar brosiectau a rhaglenni a ariannir gan y Cyngor. | Archwilio'r rhaglen arwynebu er mwyn cyflwyno lefelau uwch o agregau wedi'u hailgylchu (hyd at 50%) i haenau arwyneb. | Peirianneg | Byr/Canolig |
| R48 | | Defnyddio deunyddiau naturiol pan fo hynny'n addas a chynhyrchion wedi'u hailgylchu pan fo modd megis bolardiau, biniau, meinciau a chyrbau ar brosiectau gwasanaethau stryd. | Peirianneg | Byr/Canolig |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **RHEOLI GWASTRAFF** | | | |
| R49 | Ymchwilio i gyfleoedd i leihau gwastraff yn yr awdurdod lleol. | Bydd anfon llai o wastraff i safleoedd tirlenwi yn arwain at lai o allyriadau nwy tŷ gwydr. | Dull Corfforaethol/ Cyfathrebu | Byr |
| R50 | Dadansoddiad Gwastraff Cylch Bywyd | Dylunio gwastraff allan o weithgarwch prynu, gan roi blaenoriaeth i brynu nwyddau sy'n para'n hirach, y gellir eu hailwampio neu y gellir eu trwsio, hyd yn oed os ydynt yn ddrytach. | Rheoli Gwastraff | Byr/Canolig |
| R51 | Adolygu Deunydd Pacio | Adolygu'r ffordd y bydd nwyddau bwytadwy a bwyd/diod ar gael. Rhoi blaenoriaeth i ddewisiadau y gellir eu hail-ddefnyddio a'u hail-lenwi, a dileu cynhwysyddion untro yn raddol (hyd yn oed os oes modd eu hailgylchu). | Rheoli Gwastraff | Byr/Canolig |
| R52 | Trwsio yn Gyntaf, Ailgylchu yn Olaf | Cefnogi, annog a buddsoddi mewn tîm trwsio a gofal i ymestyn cylch oed dodrefn swyddfa ac ati. | Rheoli Gwastraff | Byr/Canolig |
| | **AMRYWIOL** | | | |
| R53 | Manteisio i'r eithaf ar y defnydd a wneir o systemau TG deallus er mwyn lleihau ein hallyriadau carbon | Cyflwyno arferion gwaith swyddfa ddi-bapur ar draws ar y Cyngor. | Dull corfforaethol | Byr/Canolig |
| R54 | | Sicrhau mai galwadau cynhadledd yw'r norm trwy gyfrwng cyfleusterau TG priodol i bawb. | Dull corfforaethol/ TG | Byr/Canolig |
| R55 | Annog Cynghorau Cymuned i ddefnyddio'u cyllid Ardoll Seilwaith Cymunedol i roi sylw i ddatgarboneiddio yn lleol. | Amlygu cyfleoedd a darparu cymorth i Gynghorau Tref/Cymuned er mwyn annog camau i ariannu cynlluniau ynni carbon isel ac adnewyddadwy. | Cynllunio ac Adfywio | Byr |

## CYNHYRCHU

| CYF | PROSIECT | CAM GWEITHREDU | CYFLAWNIR GAN | AMSERLENNI |
|---|---|---|---|---|
| | **CYNHYRCHU YNNI GWYRDD** | | | |
| P1 | Nodi'r potensial ar gyfer cynhyrchu pŵer Solar ar stoc adeiladau annomestig. | Adolygu'r holl le ar doeon a blaenoriaethu ar gyfer gwaith gosod PV. (Ceisio manteisio i'r eithaf ar y lle ar doeon er mwyn cynhyrchu ynni adnewyddadwy). | Gwasanaethau Eiddo | Byr |
| P2 | Adolygu eiddo lle y ceir potensial Thermol Solar. | Adolygu'r lle ar doeon ar gyfer paneli thermol solar, gan flaenoriaethu canolfannau hamdden. | Gwasanaethau Eiddo | Byr |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| P3 | Manteisio i'r eithaf ar gynhyrchu ynni gwyrdd ar eiddo domestig newydd Cartrefi Caerffili. | Ymchwilio i a phan fo modd, cyflwyno ynni a gwres ffotofoltäig, ffynhonnell daear a ffynhonnell aer i stoc tai newydd. | Tai | Canolig |
| P4 | Ymchwilio i gyfleoedd i droi cartrefi presennol y mae CBSC yn berchen arnynt yn “orsafoedd pŵer bychain”. | Ymchwilio, a lle bo’n bosibl, ôl-osod cyfarpar ffotofoltäig, ffynhonnell daear a ffynhonnell aer a gwres ar stoc bresennol. Gweithio gyda Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i bennu cyfleoedd. | Tai | Canolig/Hir |
| P5 | Adolygu tir y mae'r Cyngor yn berchen arno er mwyn nodi cyfleoedd am ffermydd solar a thyrbinau gwynt. | Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i baratoi adroddiadau asesu hyfywedd ar gyfer tir a adolygwyd, y mae'r Cyngor yn berchen arno. | Polisi / Gwasanaethau Eiddo/Cynllunio ac Adfywio / Trawsnewid / Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru | Byr |
| P6 | Cynhyrchu ynni gwyrdd at ddefnydd CBSC ar dir y mae'r Cyngor yn berchen arno. | Datblygu tir y mae'r Cyngor yn berchen arno ar gyfer ffermydd solar a thyrbinau gwynt, gan nodi a gweithredu prosiectau blaenoriaeth o adroddiadau asesu hyfywedd Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru. | Dull corfforaethol | Canolig |
| P7 | | Cymryd budd masnachol mewn datblygiadau ffermydd solar yn y sector preifat o fewn a thu allan i'r Fwrdeistref Sirol lle y mae'r cyfle yn codi. | Dull corfforaethol | Byr |
| P8 | Cynhyrchu ynni gwynt gwyrdd ar y tir. | Cymryd budd masnachol mewn datblygiadau gwynt ar y tir yn y sector preifat o fewn a thu allan i'r Fwrdeistref Sirol, lle y mae'r cyfle yn codi. | Dull corfforaethol | Byr |
| P9 | Manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i gysylltu trydan a gynhyrchir yn lleol gyda swyddfeydd y Cyngor. | Campws Tredomen – Gweithredu cynigion i bartneru gyda safle treulio anaerobig lleol i gludo ynni i brif gampws y Cyngor. | Gwasanaethau Eiddo | Byr |
| P10 | Ystyried cyfleoedd i fuddsoddi mewn gweithgarwch cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr y tu allan i'r Fwrdeistref Sirol. | Archwilio cyfleoedd i fuddsoddi mewn cyfleoedd ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr, gan gynnwys cyfleoedd ar y môr. | Dull corfforaethol | Byr/Canolig/Hir |
| P11 | | Asesu safleoedd ymgeisiol ar gyfer yr 2il CDLl Newydd er mwyn pennu cyfleoedd cynhyrchu ynni adnewyddadwy. | Cynllunio ac Adfywio | Byr/Canolig |
| P12 | Cynnal Asesiad Ynni Adnewyddadwy o'r Fwrdeistref Sirol fel rhan o'r 2il CDLl Newydd. | Bydd yr Ymddiriedolaeth Garbon yn cynnal Asesiad Ynni Adnewyddadwy mewn partneriaeth â CBSC – bydd hwn yn darparu gwaelodlin am y galw presennol am ynni a'r galw am ynni yn y dyfodol, gan gyfrannu at bolisïau ynni gofodol i'w cynnwys yn yr 2il | Cynllunio ac Adfywio | Byr/Canolig |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | CDLl Newydd, nodi targedau ynni adnewyddadwy ar gyfer y Fwrdeistref Sirol a nodi unrhyw gamau y gallent gynorthwyo i ddarparu cyfleoedd ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel ac adnewyddadwy. | | |
| P13 | | Mapio potensial ynni adnewyddadwy yn erbyn datblygiad arfaethedig, yn arbennig ar safleoedd strategol yn yr 2il CDLl Newydd | Cynllunio ac Adfywio | Byr/Canolig |
| P14 | | Sefydlu prosiectau ynni adnewyddadwy ar y cyd ag awdurdodau cyfagos. | Cynllunio ac Adfywio | Canolig/Hir |
| P15 | Manteisio i'r eithaf ar botensial cynhyrchu trydan o safleoedd tirlenwi. | Manteisio i'r eithaf ar weithgarwch cynhyrchu trydan yn Nhrehir ac ymchwilio a fyddai safleoedd tirlenwi eraill yn gallu cynhyrchu trydan. | Polisi | Canolig |
| P16 | Ymchwilio i gyfleoedd cynhyrchu hydro-trydan. | Gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru er mwyn pennu safleoedd posibl er mwyn cynnal astudiaethau dichonolrwydd. | Dull corfforaethol | Canolig |
| P17 | Cefnogi'r cam o adbweru asedau ynni adnewyddadwy sy'n bodoli eisoes. | Mabwysiadu polisi cynllunio cefnogol yn yr 2il CDLl Newydd sy'n ymwneud ag adbweru asedau sy'n bodoli eisoes ar ddiwedd eu cyfnod caniatâd cynllunio cyfredol. | Cynllunio ac Adfywio | Byr/Canolig |
| | **AMRYWIOL** | | | |
| P18 | Ymchwilio i gyfleoedd i gynhyrchu gwres o ddŵr ffynhonnell daear. | Pwll Glo Navigation – cefnogi cynllun peilot gwresogi gyda dŵr daear Prifysgol De Cymru. | Cynllunio ac Adfywio | Canolig |
| P19 | Gweithio gyda Chyngor Cymuned Argoed i ddatblygu parc eco ynni gwyrdd ym Mhwll Glo Markham . | CBSC i hwyluso'r grŵp prosiect a chynorthwyo wrth ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer y safle. | Cynllunio ac Adfywio | Byr/Canolig |
| P20 | Cefnogi systemau ynni a ddatblygir er budd y gymuned. | Cynorthwyo prosiectau ynni carbon isel ac adnewyddadwy priodol a ddatblygir gan y gymuned neu sydd er budd y gymuned sy'n eu cynnal. | Cynllunio ac Adfywio | Byr/Canolig |

# GWRTHBWYSO

| CYF | PROSIECT | GWEITHREDU | CYFLAWNIR GAN | AMSERLENNI |
|---|---|---|---|---|
| | **SEILWAITH GWYRDD** | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| O1 | Mabwysiadu Strategaeth Seilwaith Gwyrdd. | Gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau perthnasol i ddatblygu Strategaeth Seilwaith Gwyrdd gynhwysfawr ar draws y Fwrdeistref Sirol. | Parciau/ Cefn Gwlad/ Cynllunio | Byr/Canolig |
| O2 | | Pwyslais ar gynnal, gwella a datblygu seilwaith gwyrdd sy'n bodoli eisoes, yn ogystal â seilwaith newydd | Parciau/ Cefn Gwlad/ Cynllunio | Byr/Canolig |
| | **GWAREDU TANWYDD FFOSIL** | | | |
| O3 | Archwilio cyfleoedd i ddatgarboneiddio buddsoddiadau'r awdurdod. | Pennu pa gwmnïau a sefydliadau y mae'r awdurdod yn buddsoddi gyda nhw. | Dull corfforaethol | Byr |
| O4 | | Datblygu polisïau i leihau buddsoddiad gyda busnesau allyriadau uchel ac sy'n seiliedig ar danwydd ffosil. | Dull corfforaethol | Byr |
| | **DAL A STORIO CARBON** | | | |
| O5 | Annog coedwigo yn y Fwrdeistref Sirol. | Adolygu daliad tir ar draws yr awdurdod i nodi cyfleoedd i blannu coed. | Eiddo / Cefn gwlad/ Parciau | Canolig |
| O6 | | Datblygu a gweithredu rhaglen plannu coed.  Mae cyfleoedd yn bodoli i ddatblygu cynlluniau plannu coed ar dir yn y parciau gwledig cydnabyddedig sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor ac y mae'r Cyngor yn berchen arnynt. | Cefn gwlad/ Parciau | Byr |
| O7 | | Nodi tir yn yr 2il CDLl Newydd ar gyfer "Coedwig Caerffili". | Cefn gwlad/ Cynllunio | Canolig/Hir |
| O8 | | Gweithio gyda phartneriaid a thirfeddianwyr i hyrwyddo a chefnogi cynlluniau plannu coed. | | Canolig |
| O9 | Gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru i nodi safleoedd er mwyn plannu coed newydd. | Nodi tir trwy Adolygiad Asedau Tai Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a fydd yn helpu i ddisodli coed a gollwyd ar gynlluniau Metro y Cymoedd. | Dull corfforaethol | Byr |
| O10 | | Cydweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i hyrwyddo gweithgarwch plannu coed ar dir y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn berchen arno – er enghraifft yng Nghoedwig Cwmcarn. | Cynllunio ac Adfywio/ Cefn gwlad | Byr/Canolig/ Hir |
| O11 | | Datblygu prosiectau coetir cymunedol bychain er mwyn ychwanegu at y coetiroedd newid hinsawdd sy'n bodoli eisoes, a blannwyd gan y Cyngor mewn partneriaeth gyda grwpiau lleol. | Cefn gwlad/Polisi | Canolig/Hir |
| O12 | | Cynorthwyo grwpiau a rheolwyr coetiroedd cymunedol presennol i ehangu a datblygu egwyddorion da rheolaeth coetiroedd sy'n cynnwys cynhyrchion pren a gynhyrchir mewn ffordd gynaliadwy | | |
| O13 | | Cyflwyno trefniadau noddi coed – cynllun prynu "Coeden i Mi" i breswylwyr a busnesau y Fwrdeistref Sirol. | Cyfathrebu | Canolig |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| O14 | Hyrwyddo cynefinoedd gwlyptiroedd yn y Fwrdeistref Sirol. | Nodi tir addas y mae CBSC yn berchen arno er mwyn peilota ailgyflwyno gwlyptir a gweithio gyda thirfeddianwyr i gyflwyno rhagor o dirluniau gwlyptir. | Cefn gwlad | Canolig |
| O15 | Hyrwyddo tirlunio mewn datblygiadau newydd. | Cefnogi datblygiad newydd priodol gyda gwaith tirlunio sy'n canolbwyntio'n sylweddol ar garbon fel rhan annatod o'r dyluniad a'r cynllun. | Cynllunio | Byr/Canolig |
| O16 | Hyrwyddo plannu naturiol mewn ceisiadau draenio cynaliadwy’r Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy. | Cynnwys seilwaith draenio gwyrdd ar gynlluniau newydd trwy broses ymgeisio’r Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy. | Draenio / Cynllunio | Byr |
| O17 | Defnyddio tir y mae CBSC yn berchen arno i dyfu cnydau sy'n amsugno carbon deuocsid. | Ymchwilio i'r cyfle i blannu cnydau ar asedau tir y mae CBSC yn berchen arnynt, sy'n helpu i leihau carbon yn yr atmosffer. | Gwasanaethau Eiddo/Cefn gwlad | Canolig |
| O18 | Lleihau dwyster gwaith cynnal a chadw a thorri porfa mewn parciau ac wrth ymyl ffyrdd. | Lleihau amlder trefniadau torri porfa a gynlluniwyd, er mwyn annog cynefinoedd naturiol i dyfu. | Parciau/Priffyrdd | Byr |
| O19 | Hyrwyddo rhagor o fannau gwyrdd mewn amgylcheddau trefol. | Cyflwyno parciau poced a seilwaith gwyrdd mewn canol trefi. Un enghraifft fyddai gweithredu cynllun creu lleoedd Caerffili. | Parciau/Cefn gwlad/ Cynllunio ac Adfywio | Canolig |
| O20 | Gwella, cynnal, datblygu a chefnogi glaswelltir ucheldirol fel storfeydd carbon naturiol | Mae tirluniau ucheldirol yn storfeydd pwysig carbon pridd ar draws Cymru ac yma yng Nghaerffili. Maent yn cynnal bywyd gwyllt, incwm amaethyddol ac maent yn rhannau cyfoethog o'n treftadaeth. Gweithio gyda chymdeithasau tir comin lleol, partneriaid amaethyddol a thirfeddianwyr er mwyn rheoli'r adnodd hwn mewn ffordd gadarnhaol i fanteisio i'r eithaf ar weithgarwch storio carbon | | |
| O21 | Cefnogi Amaethyddiaeth sy'n glyfar o ran yr Hinsawdd | Cydweithio gyda sefydliadau ymchwil a thirfeddianwyr / ffermwyr lleol i gefnogi a meithrin trosglwyddo gwybodaeth ym maes cynhyrchu amaethyddol, lleihau allyriadau nwy tŷ gwydr a chreu cydnerthedd hinsawdd. | | |
| O22 | | Gweithio gyda thirfeddianwyr i archwilio taliadau carbon er mwyn creu coetiroedd hygyrch a chynhyrchiol fel storfeydd carbon ac adnodd cynhyrchiol ar gyfer adeiladu a dibenion eraill. | | |
| O23 | Coed Stryd | Pan fo hynny'n ymarferol, datblygu gweithgarwch plannu a rheoli coed ar strydoedd er mwyn darparu cysgod, lleihau dŵr ffo a dal a storio carbon. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| O24 | Peilot Dad-ddofi Tir | Gweithio gyda thirfeddianwyr a thir yr awdurdod lleol i leihau rheolaeth weithredol a dychwelyd i brosesau naturiol er mwyn storio carbon a gwella bioamrywiaeth. Cymryd gwaelodlinau carbon ac ecolegol cyn ac yn ystod y broses er mwyn arfarnu canlyniadau. | | |

## PRYNU

| CYF | PROSIECT | CAM GWEITHREDU | CYFLAWNIR GAN | AMSERLENNI |
|---|---|---|---|---|
| | **CAFFAEL** | | | |
| B1 | Cynorthwyo wrth fesur gwaelodlin garbon yr awdurdod. | Mapio'r categorïau caffael yn Spike Cavell (system TG ganolog sy'n casglu data am wariant y sector cyhoeddus) yn erbyn y ffactorau allyriadau carbon a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru, ac adrodd i Lywodraeth Cymru. | Caffael | Byr/Canolig |
| B2 | Datblygu pecyn cymorth buddion carbon | Cyflwyno cymal gwyrdd i gontractwyr sy'n gweithredu ar ran y Cyngor neu sy'n cynnig gwasanaeth i'r Cyngor. | Gwasanaethau Eiddo/ Caffael | Byr |
| B3 | Prynu 'yn lleol' pan fo modd. | Defnyddio cyflenwyr lleol i leihau'r ôl troed carbon. Caffael nwyddau gan gwmnïau cydweithredol neu gynhyrchwyr lleol pan fo modd | | Byr |
| B4 | Blaenoriaethu'r cam o brynu cynhyrchion carbon niwtral/carbon is. | Nodi ble y mae cyfleoedd o'r fath yn bodoli ac ystyried newid. | | Byr |
| B5 | Monitro a rheoli pryniannau sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar ddefnydd ynni. | Adolygu'r cam o brynu offer mawr e.e. Boeler neu sgriniau cyfrifiadur y prynir sawl un ohonynt ar y tro, er mwyn arbed ynni. | Caffael/ Gwasanaethau Eiddo | Hir |
| B6 | Cyflwyno deunyddiau wedi'u hailgylchu pan fo modd. | Cyflwyno deunyddiau wedi'u hailgylchu er mwyn lleihau cynhyrchiant cynhyrchion newydd o adnoddau nad ydynt yn rhai adnewyddadwy. | Dull corfforaethol | Byr |
| B7 | Sicrhau mecanwaith effeithiol ac effeithlon wrth fesur, cofnodi a monitro gwerth cymdeithasol a buddion cymunedol gan ddefnyddio Themâu, Canlyniadau, Mesurau (TOMs) trwy Fframwaith Mesur Gwerth Cymdeithasol. | Cyflwyno mesurau arloesol i hyrwyddo sgiliau lleol a chyflogaeth yn cael eu cynnwys mewn contract – gallai'r rhain fod e.e. wedi cael eu cyd-ddylunio gyda rhanddeiliaid neu gymunedau, neu'n ceisio sicrhau buddion wrth leihau ôl troed carbon mentrau gymaint ag y bo modd, ac ati. | Caffael | Byr/Canolig |
| B8 | | Cyflwyno mesurau arloesol er mwyn galluogi i gymunedau iachach, mwy diogel a mwy cydnerth gael eu darparu ar gontractau – gallai'r rhain fod e.e. yn cael eu cyd-ddylunio gyda rhanddeiliaid neu | Caffael | Byr/Canolig |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gymunedau, neu'n ceisio sicrhau buddion wrth leihau ôl troed carbon mentrau gymaint ag y bo modd, ac ati | | |
| B9 | | Creu mwy o gyfleodd i fentrau micro, bach a chanolig lleol i ymateb i dendrau er mwyn gwneud gwaith datgarboneiddio ar gontractau | Caffael | Byr/Canolig |
| B10 | | Cyflwyno mesurau arloesol er mwyn hyrwyddo a chynorthwyo busnes cyfrifol i gael ei gynnwys mewn contract – gallai'r rhain fod e.e. yn cael eu cyd-ddylunio gyda rhanddeiliaid neu gymunedau, neu'n ceisio sicrhau buddion wrth leihau ôl troed carbon mentrau gymaint ag y bo modd, ac ati. | Caffael | Byr/Canolig |
| B11 | | Darparu cyngor busnes arbenigol er mwyn helpu mentrau micro, bach a chanolig eu maint a mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol mentrau cymdeithasol cymunedol gwirfoddol i sicrhau statws di-garbon net erbyn 2030 | Caffael | Byr/Canolig |
| B12 | | Cyflwyno gofyniad i wneud arbedion o ran allyriadau CO2 ar gontract all. | Caffael | Byr/Canolig |
| B13 | Integreiddio costau cylch bywyd mewn fframweithiau caffael | Ystyried a gwerthuso carbon corfforedig cynhyrchion yn ystod eu cylch bywyd cyfan, nid y carbon ymlaen llaw yn unig. | Caffael | Byr |